Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

2020 dccc 1

RHAN 1

TROSOLWG

1 Trosolwg o'r Ddeddf hon

(1) Mae Rhan 2 o'r Ddeddf hon yn newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i "Senedd Cymru" neu "the Welsh Parliament" ac yn gwneud newidiadau cysylltiedig.

(2) Mae Rhan 3 o'r Ddeddf hon yn estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i bersonau 16 a 17 oed a dinasyddion tramor cymhwysol ac yn gwneud newidiadau cysylltiedig i gofrestru etholiadol. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig.

(3) Mae Rhan 4 o'r Ddeddf hon yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd.

(4) Mae Rhan 5 o'r Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau amrywiol o ran y Senedd a'r etholiadau iddi sydd—

(a) yn estyn yr amser pryd y mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad cyffredinol;

(b) yn egluro pwerau Comisiwn y Senedd i godi tâl am ddarparu nwyddau a gwasanaethau;

(c) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar weithrediad y darpariaethau yn y Ddeddf hon sy'n estyn yr hawl i bleidleisio ac sy'n newid cymhwystra i fod yn Aelod o'r Senedd.

(5) Mae Rhan 6 o'r Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynghylch dehongli'r Ddeddf hon, dod â darpariaethau'r Ddeddf i rym, a'r enw byr.